30 Mehefin 2026

Annwyl

**ATISN 27047 – Pont Y Borth (Pont Menai)**

Diolch i chi am eich cais a ddaeth i law ar 3 Mehefin 2026. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1) Pwy neu beth sydd yn canfod bod cerbyd dros 7.5 tunnell yn teithio dros y bont?

2) Pan fydd yn rhaid cau'r bont, beth yn union y mae'n rhaid ei wirio er mwyn iddi allu ail-agor eto?

3) Pa mor fregus yw'r bont os oes yn rhaid iddi gau bob tro y mae cerbyd 7.5 tunnell yn mynd drosti?

4) Ydych chi'n rhagweld y bydd angen cau'r bont yn gyfan gwbl yn y tymor byr?

5) Bydd y gwaith atgyweirio yn parhau tan o leiaf ddechrau 2027, ydych chi'n gallu cadarnhau mai'r cynllun o hyd yw i agor bryd hynny?

6) Faint mae Llywodraeth Cymru wedi ei wario hyd yma ar y bont ers i waith atgyweirio ddechrau ddiwedd 2022?

7) Faint y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wario hyd yma ar yr opsiwn o gael trydydd croesiad dros y Fenai?

8) Oes gennych chi amcangyfrif o'r gost i'r economi leol o ganlyniad i'r oedi i gerbydau ers i'r gwaith ddechrau ar ddiwedd 2022?

**Ein hymateb**

1) Mae Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) wedi cyflwyno datrysiad arloesol sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial, gan ddefnyddio technoleg teledu cylch cyfyng (CCTV) i fonitro a gwirio pob cerbyd sy'n croesi'r bont. Mae'r system awtomataidd hon yn symleiddio'r broses o ganfod cerbydau, gan sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal yn gywir ac mewn amser real. Mae hyn yn gwella effeithlonrwydd ac yn cefnogi cydymffurfiaeth â chyfyngiadau pwysau. Trwy ddefnyddio technoleg ddatblygedig, mae'r system yn gweithredu'n ddibynadwy ac yn darparu dull cadarn o sicrhau bod y bont yn parhau'n ddiogel.

2) Mae pob un o'r pedwar pwynt ar Drawst Croes 1 a'r pwyntiau cysylltu Aerotruss yn cael eu gwirio a'u cofnodi i fonitro unrhyw symudiad posibl. UK Highways A55 Ltd. sy'n gyfrifol am weithredu a chynnal y bont o dan Gontract Dylunio, Adeiladu, Ariannu a Gweithredu (DBFO) sy'n rhan o Fenter Cyllid Preifat (PFI). O ganlyniad, os oes angen rhagor o wybodaeth ynghylch y mater hwn, dylid cyfeirio ymholiadau at UK Highways A55 Ltd., gan mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu ymateb manwl.

3) Ar hyn o bryd, mae system sgaffaldiau o'r enw Aerotruss wedi'i hongian o blatfform y bont. O ganlyniad i'r strwythur ychwanegol hwn, mae cyfyngiad pwysau o 7.5 tunnell wedi'i roi ar waith er mwyn atal gorlwytho'r bont. Mae'r mesur hwn yn angenrheidiol i

gynnal cyfanrwydd strwythurol y bont ac i sicrhau diogelwch i bob defnyddiwr yn ystod y gwaith sy'n parhau.

4) Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â UK Highways A55 Ltd. i sicrhau bod y bont yn parhau'n weithredol yn ystod Cam 2 y gwaith. Mae'r ddwy ochr yn cydlynu ac yn gweithredu ystod o fesurau i leihau unrhyw darfu ac i gynnal teithio diogel. Mae'r cydweithrediad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i gadw'r bont ar agor ac yn hygyrch tra bo gwaith hanfodol yn parhau.

5) Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn parhau ar y trywydd iawn, ac mae disgwyl y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod Gwanwyn 2027. Mae hyn yn adlewyrchu'r asesiad diweddaraf o hynt y prosiect. Darperir diweddariadau pellach os bydd unrhyw newidiadau i'r amserlen a ragwelir.

6) UK Highways A55 Ltd (UKHA55 Ltd) sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ac atgyweirio'r A55, gan gynnwys croesfannau'r Fenai, o dan delerau'r contract Dylunio, Adeiladu, Ariannu a Gweithredu (DBFO). O ganlyniad, y contractwr sy'n gyfrifol am y costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith atgyweirio hwn, nid Llywodraeth Cymru.

7) Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi gwario £1.681444 miliwn ar waith sy'n ymwneud â'r opsiwn o drydydd croesfan dros Afon Menai.

8) Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw amcangyfrif o'r gost i'r economi leol o ganlyniad i oedi i gerbydau ers dechrau'r gwaith ar ddiwedd 2022, ac felly nid yw'n cadw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane

Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir